# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 19 Mawrth 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Logo Llywodraeth Cynulliad Cymru

**C13 David Davies:** Beth a gyflawnir drwy gael logo ar wahân ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru? (OAQ16431)

**Prif Weinidog Cymru: (Rhodri Morgan):** Mae logo newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwysig oherwydd y bydd yn gwneud y modd y mae'r Cynulliad yn gweithio yn llawer mwy amlwg a dealladwy. Mae pawb wedi cytuno bod angen hynny. Yn fwyaf diweddar, mewn dadl ar adolygiad o weithdrefnau'r Cynulliad, cafwyd cefnogaeth unfryd i welliant yr wrthblaid a ddywedai y dylai'r ffin rhwng y Llywodraeth a'r Cynulliad fod mor amlwg ag y bo modd o dan y ddeddfwriaeth gyfredol. Dyna yn union a wnaethom.

### Goblygiadau Sancsiynau Unol Daleithiau America ar Fewnforion Dur ar Gymru

**C14 Brian Gibbons:** A all Prif Weinidog Cymru roi'r newyddion diweddaraf ar unrhyw drafodaethau a fu rhyngddo ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar yr oblygiadau i Gymru o ganlyniad i sancsiynau Unol Daleithiau America ar fewnforion dur? (OAQ16427) [R]

**Prif Weinidog Cymru:** Dyna un o nifer o faterion a drafodaf yn rheolaidd mewn cyfarfodydd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Codais y mater hwnnw â Llywodraeth y DU hefyd y llynedd.

### Jiwbilî Aur y Frenhines

**C15 Jonathan Morgan:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar gynlluniau ei weinyddiaeth ar gyfer dathlu Jiwbilî Aur y Frenhines? (OAQ16432)

**Prif Weinidog Cymru:** Bydd gan Weinidogion y Cynulliad gyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thaith Jiwbilî Aur y Frenhines yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cael ei chynrychioli ar weithgor cystadleuaeth farddoniaeth y Jiwbilî Aur ac yn talu am gyfieithu a dosbarthu llyfrynnau a phosteri y gystadleuaeth honno.